OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 343

# Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau Bwyd, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

## RHAN 5

## Diwygiadau Amrywiol

### Diwygio Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012

**7.** Yn Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012(**1**), yn rheoliad 12(2), yn lle'r geiriau o "nhabl 1" hyd at y diwedd rhodder "Nhabl 1 o Atodlen 6 ac yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau yn y Tabl hwnnw".

### Diwygio Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013

**8.** Yn Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013(**2**), yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "Rheoliadau'r UE a ddargedwir"—

(a) yn y testun Cymraeg, yn lle "("*the EU Regulations*")" rhodder "("*the retained EU Regulations*")";

(b) yn y testun Saesneg, ar ôl ""the retained EU Regulations"" mewnosoder "("*Rheoliadau'r UE a ddargedwir*")".

### Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016

**9.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1B, yn Nhabl 1, yn y testun Cymraeg, yn y cofnod ar gyfer "1. Arsenig", yn yr ail golofn, yn lle "deunyddiau blawd", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "deunyddiau bwyd anifeiliaid".

(**1**) O.S. 2012/2705 (Cy. 291), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/1362 (Cy. 273); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**2**) O.S. 2013/2591 (Cy. 255), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/1362 (Cy. 273); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**3**) O.S. 2016/386 (Cy. 120), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/1362 (Cy. 273); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.